# Cynllun Tair Blynedd Ofcom 2025-28

28 Marwth 2025

# Cynnwys


**1**
**Cyflwyniad**
Rôl Ofcom

**2**
**Cyd-destun**
Sut mae dulliau cyfathrebu'n newid

**3**
**Blaenoriaethau**
Uchelgais Ofcom dros y tair blynedd nesaf

# Cyflwyniad



# Sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb

**Dyna yw cenhadaeth Ofcom. Mae'r cynllun hwn yn nodi ein gwaith rhwng 2025 a 2028.**

### Ein rôl ers 2003.

Nid yw dyletswydd gyfreithiol graidd Ofcom wedi newid; sef hyrwyddo buddiannau dinasyddion a defnyddwyr lle bo hynny'n briodol drwy annog cystadleuaeth, ac ystyried buddsoddiad, arloesedd a thwf. Rhaid i ni wasanaethu dinasyddion a defnyddwyr heddiw ac yfory – gan sicrhau tegwch a fforddiadwyedd nawr, a sicrhau buddsoddiad a fydd yn cynnal gwasanaethau da yn y dyfodol.

### Byd sy'n newid.

Mae'r byd cyfathrebu wedi newid, ac mae ein cylch gwaith wedi tyfu. Mae'r cyfryngau cymdeithasol wedi trawsnewid rhyngweithio personol. Mae band eang symudol a'r cwmwl yn galluogi'r rhyngrwyd i fod ym mhob man, drwy'r amser. Rydym yn rhyngweithio, yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf ac yn cael ein diddanu drwy ddewis diddiwedd o rwydweithiau a gwasanaethau cyflym o ansawdd uchel sy'n pweru'r economi fodern.

### Heriau newydd.

Er bod newidiadau wedi arwain at fanteision, mae hefyd wedi cyflwyno risgiau newydd ar draws ein cylch gwaith, gan gynnwys diogelwch ar-lein a seiberddiogelwch – fel cynnwys ac ymddygiad niweidiol ar-lein; galw enfawr am donnau awyr di-wifr prin; bygythiadau cystadleuol i gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus; a gostyngiad yn nifer y llythyrau yn y post.

# Arloesi mewn gwasanaethau cyfathrebu

- 1989 – Lansio gwasanaeth lloeren cyntaf Sky
- 1992 – Pipex yn lansio gwasanaeth rhyngrwyd masnachol cyntaf y DU
- 1998 – Lansio peiriant chwilio Google
- 2002 – Lansio Freeview
- 2003 – Lansio ffonau symudol 3G
- 2007 – Lansio’r iPhone cyntaf; Lansio BBC iPlayer
- 2008 – Gwasanaeth 50 Mbps cyntaf gan Virgin
- 2010 – Lansio Instagram
- 2012 – Whistl yn lansio gwasanaeth llythyrau o’r dechrau i'r diwedd
- 2019 – Lansio ffonau symudol 5G yn y DU
- 2021 – Lansio gwasanaethau band eang lloeren Starlink yn y DU
- 2022 – Lansio ChatGPT

# Cefnogi twf drwy reoleiddio

**Mae rheoleiddio da a thwf economaidd yn mynd law yn llaw. Fel rheoleiddiwr, rydym yn cefnogi arloesedd a buddsoddiad yn y rhwydweithiau newydd sydd eu hangen ar y DU. Byddwn yn parhau i wneud hyn dros y tair blynedd nesaf.**

**Hyrwyddo buddsoddiad mewn band eang a symudol.**
Cadarnhau ail hanner ein fframwaith deng mlynedd i sicrhau buddsoddiad cystadleuol mewn ffeibr llawn. Rhoi gwybodaeth well am ddarpariaeth i ddefnyddwyr ffonau symudol er mwyn gwella cystadleuaeth a thryloywder.

**Defnyddio sbectrwm i bweru arloesedd ar draws yr economi.**
Defnyddio mwy ar rannu sbectrwm; sefydlu fframwaith ar gyfer cysylltiadau lloeren uniongyrchol-i-ddyfais; ac adeiladu ar ein trefn trwyddedu arloesi a threialu.

**Cefnogi diwydiannau creadigol y DU.**
Gweithredu'r Ddeddf Cyfryngau a lansio adolygiad newydd o ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus, sef y comisiynwyr cynnwys mwyaf yn y DU o hyd. Yr haf hwn, byddwn yn adrodd ar ddiwygiadau polisi i gefnogi'r sector hanfodol hwn a sicrhau cynaliadwyedd newyddion o ansawdd uchel.

**Helpu busnesau bach.**
Teilwra ein dull gweithredu ar gyfer busnesau bach, gan gynnwys y Gwasanaeth Cymorth Digidol sy'n darparu canllawiau rhyngweithiol i helpu busnesau bach risg isel i gydymffurfio mor hawdd â phosibl â'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein.

# Cyd-destun

**Mae'r diwydiannau cyfathrebu yn cael eu diffinio gan arloesedd, ymyriant a newid.**

Er mwyn gwneud y mwyaf o'r manteision i'r DU, rhaid i ni ddeall y grymoedd technolegol, masnachol a defnyddwyr a fydd yn siapio'r sectorau hyn dros y blynyddoedd nesaf.



# Sut bydd cyfathrebu'n esblygu

**Rydym wedi nodi chwe thuedd ym maes defnyddwyr, masnachol a thechnoleg**

## Defnyddwyr

### Anghenion newidiol defnyddwyr, y byddwn yn eu holrhain drwy ymchwil o'r radd flaenaf

**Newid ymddiriedaeth defnyddwyr –** Mae technoleg yn galluogi cyfryngau synthetig a sgamiau, gan effeithio ar ymddiriedaeth mewn newyddion a sefydliadau cyhoeddus

**Dewis a darnio cynulleidfaoedd –** Mae mwy o ddewis o wasanaethau sy'n apelio i grwpiau penodol yn denu cynulleidfaoedd ar draws llwyfannau a dyfeisiau

## Masnachol

### Mae busnesau'n ceisio elwa o drawsnewid digidol

**Twf economaidd –** Mae rhoi hwb i dwf economaidd cyffredinol a mynd i'r afael ag allgáu digidol yn flaenoriaethau i'r DU ac i Ofcom

**Modelau busnes newydd –** Mae modelau busnes newydd, a rôl gynyddol chwaraewyr byd-eang sy'n gweithredu ar draws y gadwyn gwerth, yn herio chwaraewyr presennol ac yn newid ein sectorau

## Technoleg

### Mae technoleg yn gwella dewis, pris ac arloesedd, ac mae'n cyflwyno cwestiynau newydd hefyd

**Twf deallusrwydd artiffisial (AI) –** Mae twf ac effaith barhaus deallusrwydd artiffisial yn trawsnewid ein diwydiannau gyda photensial ar gyfer modelau busnes newydd, arbedion effeithlonrwydd, cadwyni gwerth a risgiau


**Cadernid rhwydweithiau –** O dywydd eithafol i ymosodiadau seiber gan y wladwriaeth, mae ein rhwydweithiau'n barod am siociau diogelwch a chadernid

# Gyrwyr newid

## Telegyfathrebiadau

- Mae'r galw am seilwaith digidol dibynadwy yn parhau i dyfu, gan fynnu buddsoddiad mewn band eang ffeibr llawn a band eang sy'n gallu delio â gigabits.
- Mae cadwyn gwerth telegyfathrebiadau yn esblygu wrth i weithredwyr ddefnyddio mwy a mwy o rwydweithiau sy'n seiliedig ar feddalwedd i ategu rhwydweithiau ffisegol.

**Beth mae hyn yn ei olygu:** Rhaid i ni addasu i newidiadau sy'n deillio o fwy o ddigideiddio, yn y gadwyn gwerth telegyfathrebiadau ac yn ymddygiad defnyddwyr wrth i wasanaethau newydd gael eu mabwysiadu.




## Sbectrwm a Di-wifr

- Mae'r galw am sbectrwm yn cael ei sbarduno gan y sector gofod sy'n tyfu – fel cytserau lloeren orbit isel y ddaear a gwasanaethau uniongyrchol-i-ddyfais nad ydynt yn ddaearol – yn ogystal â thwf mewn gwasanaethau symudol a Wi-Fi masnachol.
- Mae cydlynu byd-eang ar ddyrannu a chysoni sbectrwm yn bwysicach nag erioed.

**Beth mae hyn yn ei olygu:** Mae cysylltiadau di-wifr da yn sail gynyddol i'n holl sectorau ac maen nhw'n sbarduno twf ar draws yr economi. Rhaid rheoli tonnau awyr yn effeithlon i gefnogi hyn.




# Gyrwyr newid

## Darlledu a'r Cyfryngau

- Mae gan ddefnydd cynyddol o newyddion drwy gyfryngau cymdeithasol, yn ogystal â mwy o ddefnydd o systemau argymell deallusrwydd artiffisial (AI) a deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol (Gen-AI), oblygiadau o ran dewis ac ymddiriedaeth mewn newyddion.
- Mae nifer y bobl sy'n gwylio teledu llinol yn dal i ostwng, ac mae nifer y bobl sy'n gwylio gwasanaethau ffrydio a llwyfannau rhannu fideos yn cynyddu – yn enwedig ar setiau teledu.


**Beth mae hyn yn ei olygu:** Mae angen i'n gwaith rheoleiddio gyd-fynd â newidiadau mewn technoleg a disgwyliadau cynulleidfaoedd, gyda mwy o gysondeb ar draws llwyfannau llinol ac ar-alw.




## Diogelwch Ar-lein

- Mae'r risg o gynnwys niweidiol ar-lein – gan gynnwys sgamiau a thwyll – yn cael ei waethygu gan ddatblygiadau technolegol. Mae'r rhain yn cynnwys defnyddio deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol i greu cyfryngau synthetig a deallusrwydd artiffisial asiantol.
- Gall technoleg a deallusrwydd artiffisial ei hun helpu i fynd i'r afael â'r risgiau hyn. Un enghraifft yw arloesedd mecanweithiau diogelwch mewn meysydd fel sicrhau oedran.

**Beth mae hyn yn ei olygu:** Mae angen i'n gwaith rheoleiddio fod yn hyblyg iawn ac ymateb i ddatblygiadau technolegol er mwyn darparu bywyd mwy diogel ar-lein.



# Blaenoriaethau

Yn yr adran hon rydym yn tynnu sylw at y prif brosiectau a rhaglenni a fydd yn cyflawni ein huchelgeisiau dros y tair blynedd nesaf.



# Beth rydym am ei gyflawni ar draws ein blaenoriaethau

**Mae ein prosiectau a'n rhaglenni yn adlewyrchu ein dyletswyddau cyfreithiol. O fewn y rhain, mae ein gwaith yn cael ei lywio gan ein canlyniadau blaenoriaeth.**

## Rhyngrwyd a phost y gallwn ddibynnu arnyn nhw

- Buddsoddi mewn rhwydweithiau a gwasanaethau o ansawdd uchel sydd ar gael lle mae eu hangen
- Rhwydweithiau a gwasanaethau dibynadwy a diogel y gall pobl ddibynnu arnyn nhw
- Marchnadoedd effeithlon a chynaliadwy lle mae cystadleuaeth yn darparu dewis, gwerth a gwasanaethau o ansawdd uchel
- Defnyddwyr yn cael eu trin yn deg ar bob cam o daith y cwsmer, beth bynnag fo'u hamgylchiadau
- Gwasanaeth post cynaliadwy a fforddiadwy sydd ar gael ledled y DU, sy'n diwallu anghenion cwsmeriaid sy'n esblygu

## Cyfryngau rydym yn ymddiried ynddyn nhw ac yn eu gwerthfawrogi

- Gall cynulleidfaoedd ganfod a chyrchu amrywiaeth eang o gynnwys, fel cynnwys Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus sy'n cael ei gynhyrchu ledled y DU ac sy'n adlewyrchu ei hamrywiaeth
- Gall cynulleidfaoedd ganfod a chyrchu amrywiaeth o newyddion sy'n briodol gywir, yn briodol ddiduedd ac yn ddibynadwy
- Mae darparwyr cyfryngau yn cystadlu'n deg ac yn agored am gynulleidfaoedd
- Mae cynulleidfaoedd yn cael eu hamddiffyn rhag niwed, a chaiff rhyddid mynegiant ei ddiogelu

## Rydym yn byw bywyd mwy diogel ar-lein

- Llywodraethu diogelwch yn gryfach mewn gwasanaethau ar-lein yn seiliedig ar ddealltwriaeth glir o risgiau
- Gwasanaethau ar-lein wedi'u dylunio a'u gweithredu gyda diogelwch mewn golwg
- Mwy o ddewis i ddefnyddwyr er mwyn iddyn nhw gael rheolaeth ystyrlon dros eu profiadau ar-lein
- Mwy o ymddiriedaeth yn y byd ar-lein drwy gael mwy o dryloywder o ran sut mae llwyfannau'n cadw defnyddwyr yn ddiogel
- Parhau i sefydlu'r drefn diogelwch ar-lein i fod yn llwyddiant gyda'r bobl, y systemau, y prosesau a'r cysylltiadau cywir sydd ar waith

## Galluogi gwasanaethau di-wifr yn economi'r DU

- Sicrhau mynediad rhanddeiliaid at sbectrwm a lliniaru ymyriant niweidiol drwy weithgareddau cydymffurfio, trwyddedu, cynllunio a monitro sy'n galluogi gwasanaethau di-wifr
- Canfod a darparu sbectrwm i ddiwallu anghenion newidiol sectorau, gan gynnwys band eang symudol a gwasanaethau gofod
- Datblygu ein fframweithiau rheoli sbectrwm i gefnogi defnydd mwy effeithlon, gwella cyflymder a hyblygrwydd mynediad a gwella argaeledd sbectrwm
- Arwain a dylanwadu ar drafodaethau rhyngwladol am fynediad sbectrwm ar yr un pryd â chynrychioli buddiannau'r DU yn effeithiol

# Rhyngrwyd a phost y gallwn ddibynnu arnyn nhw

Rydym eisiau i bawb ym mhob man gael dewis o rwydweithiau a gwasanaethau cyflym, fforddiadwy a dibynadwy sydd hefyd yn sbarduno twf economaidd.
Dylai gwasanaethau post hefyd fod yn fforddiadwy, yn ddibynadwy ac yn gynaliadwy, gan ddiwallu anghenion pob defnyddiwr, yn enwedig y rheini a allai fod yn agored i niwed.

| Prosiectau a Rhaglenni | |
|---|---|
| **Seilwaith band eang** | • Ail hanner ein strategaeth deng mlynedd i hyrwyddo cystadleuaeth a buddsoddiad mewn band eang sy'n gallu delio â gigabits ar gyfer 2026-31, gan ddarparu mwy o ddewis a chysylltiadau cyflymach a mwy dibynadwy i gartrefi a swyddfeydd.<br>• Mae band eang sy'n gallu delio â gigabits nawr ar gael i 25m o gartrefi (83%) ac mae dros 20.7m o gartrefi (69%) yn gallu cael gafael ar ffeibr llawn. Gallai darpariaeth ffeibr llawn gyrraedd 96% erbyn 2027 gyda'r cymorth a'r rheoleiddio cywir.<br>• Rydym eisoes wedi dechrau ar y gwaith hwn, gyda'n penderfyniadau terfynol yn 2026, a bydd y gwaith o fonitro Openreach a'r farchnad yn parhau ar ôl hynny. |
| **Buddsoddiad symudol** | • Gweithio gyda'r diwydiant a rhanddeiliaid eraill i wella cysylltiadau symudol. Bydd Ofcom yn monitro ac yn gorfodi ymrwymiadau a sefydlwyd fel rhan o'r gwaith o uno Vodafone a Three, a fydd yn gwella'r ddarpariaeth dros gyfnod o wyth mlynedd.<br>• Gweithio gyda darparwyr i wella data perfformiad a darpariaeth, gan roi darlun mwy cywir i ddefnyddwyr ffonau symudol o wasanaethau symudol lle maent yn byw ac yn gweithio. Bydd hyn yn gwella tryloywder a dylai gynyddu cymhellion buddsoddi ymysg darparwyr. |
| **Diogelwch telagyfathrebiadau** | • Mae Ofcom eisiau gwneud yn siŵr bod pobl ledled y DU yn gallu dibynnu ar rwydweithiau cryf a diogel. Rydym yn gweithio'n agos gyda chwmnïau telegyfathrebiadau fel eu bod yn gwella eu diogelwch ac yn monitro eu cydymffurfiad â dyletswyddau diogelwch.<br>• Byddwn yn parhau i wreiddio'r drefn bwysig hon drwy ein gwaith monitro ac adrodd ar gydymffurfiaeth, a chamau gorfodi pan fydd angen. |
| **Rheoleiddio post** | • Mae gwir angen cysoni'r gwasanaeth post cyffredinol ag anghenion defnyddwyr a'i gadw'n gynaliadwy.<br>• Rydym wedi nodi pecyn o ddiwygiadau i'r gwasanaeth a byddwn yn adolygu agweddau eraill ar reoleiddio post, gan gynnwys fforddiadwyedd. Bydd hyn yn ffocws yn ystod dwy flynedd gyntaf y Cynllun, yna monitro parhaus, o ystyried maint y newid sydd ei angen ar y Post Brenhinol. |

# Cyfryngau rydym yn ymddiried ynddyn nhw ac yn eu gwerthfawrogi

Mae’r sector darlledu yn rhan bwysig o ddiwylliant y Deyrnas Unedig ac mae’n gyrru twf economaidd. Rydym eisiau i gynulleidfaoedd ddod o hyd i gynnwys amrywiol o ansawdd uchel yn y DU a’i fwynhau. Dylai pobl sy’n symud ar-lein i gael adloniant a gwybodaeth gael eu diogelu rhag cynnwys niweidiol a dylen nhw allu dod o hyd i newyddion dibynadwy.

| Prosiectau a Rhaglenni | |
|---|---|
| **Rhoi’r Ddeddf Cyfryngau ar waith** | • Mae’r Ddeddf Cyfryngau yn adlewyrchu’r argymhellion a wnaethom yn ein hadolygiad diwethaf o’r cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus (PSM). Mae’r rhain yn cefnogi’r sector mewn marchnad sy’n dod yn fwyfwy byd-eang, wrth i arferion cynulleidfaoedd newid, ac maen nhw’n sicrhau bod ein gwaith rheoleiddio’n parhau’n effeithiol.<br>• Mae’n cynnwys cynnal mynediad hawdd at gynnwys PSM byw ac ar-alw ac ymestyn safonau cynnwys i wasanaethau fideo ar-alw. Mae ein gwaith ar y rhaglen hon eisoes yn mynd rhagddo a bydd yn cael ei wneud drwy gydol blwyddyn gyntaf y Cynllun. |
| **Adolygiad o Gyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus** | • O ystyried cyflymder y newid, byddwn yn asesu’r hyn sydd ei angen y tu hwnt i’r mesurau sydd wedi’u cynnwys yn Neddf y Cyfryngau i gynnal a chryfhau cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus a sector cynhyrchu ffyniannus.<br>• Byddwn yn canolbwyntio ar gyfleoedd i gynnal a chryfhau cyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ac argaeledd newyddion cywir o ansawdd uchel y gall cynulleidfaoedd ymddiried ynddo. Cynhelir yr adolygiad hwn ym mlwyddyn gyntaf y Cynllun ond gallai arwain at waith pellach yn y blynyddoedd dilynol. |
| **Rheoleiddio’r BBC** | • Rydym yn sicrhau bod y BBC yn parhau i ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd ledled y DU. Byddwn yn gwneud hyn drwy ein gwaith o fonitro perfformiad y BBC a’i effaith ar y farchnad drwy gydol cyfnod y Cynllun.<br>• Byddwn hefyd yn cynnal adolygiad cyfnodol o sut mae’r BBC yn cyflawni ei Genhadaeth a’i Ddibenion Cyhoeddus, cyn proses Adolygu Siarter y Llywodraeth tua diwedd y Siarter bresennol yn 2027. |
| **Diogelu cynulleidfaoedd rhag y niwed mwyaf difrifol** | • Rydym yn diogelu cynulleidfaoedd rhag deunydd niweidiol a sarhaus ar wasanaethau teledu, gan ystyried rhyddid mynegiant.<br>• Bydd y gwaith hwn yn canolbwyntio ar yr hyn sydd bwysicaf i gynulleidfaoedd drwy gydol tair blynedd y Cynllun – yn enwedig didueddrwydd a chywirdeb newyddion. |

# Rydym yn byw bywyd mwy diogel ar-lein

Ein nod yw creu bywyd mwy diogel ar-lein i bobl yn y DU, yn enwedig plant. Rydym nawr yn gorfodi rhannau o’r Ddeddf Diogelwch Ar-lein, a bydd yr holl feysydd sy’n weddill yn mynd yn fyw yn ystod y cyfnod o dair blynedd. Bydd hyn yn arwain at newid go iawn i’r profiad ar-lein. Bydd gwiriadau oedran effeithiol yn amddiffyn plant rhag cynnwys pornograffig, hunanladdiad a hunan-niweidio. Bydd y cyfryngau cymdeithasol a gwasanaethau eraill yn sefydlu prosesau i gael gwared ar gynnwys anghyfreithlon gan gynnwys cam-drin plant yn rhywiol, twyll a therfysgaeth.

| Prosiectau a Rhaglenni | |
|---|---|
| **Cyflawni canlyniadau mwy diogel** | • Bydd cynnwys anghyfreithlon yn cael ei dynnu i lawr yn gyflym – gan gynnwys deunydd twyll, terfysgaeth, annog trais a hunanladdiad.<br>• Bydd plant yn cael eu hamddiffyn yn well, gydag algorithmau cadarn a mwy diogel i sgrinio hunan-niweidio, pornograffi a chynnwys niweidiol arall.<br>• Bydd plant yn cael eu hamddiffyn rhag cyswllt ag oedolion anhysbys, a bydd yn llawer anos i’r rhai sy’n cam-drin rannu deunydd ar gam-drin plant yn rhywiol.<br>• Bydd menywod a merched yn cael eu hamddiffyn yn well rhag casineb at fenywod, aflonyddu a cham-drin ar-lein. |
| **Tryloywder ac atebolrwydd** | • Bydd angen i gwmnïau technoleg roi diogelwch defnyddwyr wrth wraidd eu gwaith llywodraethu a dylunio cynnyrch, gan fynd i’r afael â risgiau i ddefnyddwyr ac enwi’r bobl uwch sy’n atebol am ddiogelwch defnyddwyr.<br>• Bydd ein hadroddiadau tryloywder yn taflu goleuni ar arferion a pherfformiad y diwydiant, gan nodi’r camau y mae’n rhaid i wasanaethau eu cymryd.<br>• Byddwn yn cyflwyno trefniadau ar gyfer uwch-gwynion ac unrhyw drefn mynediad newydd i ymchwilwyr y mae’r Llywodraeth yn bwriadu ei chyflwyno. |
| **Meithrin gallu** | • Byddwn yn buddsoddi yn ein swyddogaethau goruchwylio a gorfodi i wella mesurau diogelwch cwmnïau a sicrhau eu bod yn cydymffurfio â’r rheolau newydd. Fel rhan o hyn, byddwn yn darparu Gwasanaeth Cymorth Digidol a byddwn yn helpu busnesau bach risg isel i gydymffurfio mor hawdd â phosibl.<br>• Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid yn y DU a thramor, gan gynnwys rheoleiddwyr eraill, asiantaethau gorfodi’r gyfraith, y gymdeithas sifil a chyrff cyhoeddus eraill, ar ein nod cyffredin o ddiogelu defnyddwyr a sicrhau rheoleiddio cyson.<br>• Byddwn yn parhau i ddefnyddio ein rhaglen sganio’r gorwel a’n canolfan arloesi data i olrhain technolegau a thueddiadau sy’n dod i’r amlwg. |

# Galluogi gwasanaethau di-wifr yn economi'r DU

Mae sbectrwm radio yn sail i ystod eang o wasanaethau rydym yn dibynnu arnyn nhw bob dydd – gan gynnwys symudol, Wi-Fi, Bluetooth, radio darlledu, teledu a llywio lloeren. Wrth i ni reoli'r adnodd prin hwn, byddwn yn cefnogi'r galw am gynnyrch newydd, yn galluogi arloesi ac yn helpu twf economaidd.

| Prosiectau a Rhaglenni | |
|---|---|
| **Buddsoddi yn y sector gofod** | • Mae'r sector gofod a lloeren sy'n tyfu yn cefnogi amrywiaeth o wasanaethau i'r DU fel band eang, teledu a safleoedd byd-eang. Byddwn yn parhau i flaenoriaethu ein gwaith polisi ar ofod a byddwn yn darparu sbectrwm i gefnogi'r gwasanaethau hyn.<br>• Byddwn yn darparu sbectrwm ychwanegol ar gyfer terfynellau lloeren ar y tir a phyrth lloeren i gefnogi twf band eang, ac rydym wedi ymgynghori ar wasanaethau symudol lloeren uniongyrchol-i-ddyfais. Byddwn yn canolbwyntio ar ein gwaith gofod yn y cyfnod cyn Cynhadledd Radiogyfathrebu'r Byd yn 2027 (WRC-27) sydd ag agenda sy'n canolbwyntio'n fawr ar y gofod. |
| **Rhyddhau, awdurdodi ac arwerthiannau sbectrwm symudol** | • Byddwn yn parhau i arwerthu a rhyddhau sbectrwm i gefnogi twf mewn rhwydweithiau mynediad fel gwasanaethau symudol a Wi-Fi masnachol.<br>• Dros y tair blynedd, byddwn yn cwblhau ein gwaith ar y bandiau 1.4 Ghz mmWave a byddwn yn rhyddhau'r band 6 GHz uchaf i ddechrau. |
| **Ymgysylltu ar lefel ryngwladol** | • Rydym yn cynrychioli buddiannau'r DU mewn fforymau sbectrwm rhyngwladol – fel WRC-27 a'r Undeb Telathrebu Rhyngwladol (ITU) – i sicrhau bod pobl a busnesau'n elwa o arloesi technolegol ac offer wedi'i gysoni.<br>• Byddwn yn blaenoriaethu ein hymgysylltiad rhyngwladol i ddylanwadu ar yr agenda rheoli sbectrwm rhyngwladol a byddwn yn sicrhau bod safonau'n cefnogi blaenoriaethau twf ac arloesedd y DU yn y dyfodol. |
| **Seilwaith rheoli sbectrwm** | • Byddwn yn parhau i foderneiddio ein systemau rheoli sbectrwm i wella ein heffeithlonrwydd gweithredol ac awtomeiddio prosesau trwyddedu gyda gwell gwybodaeth i wella ein gwasanaeth i drwyddedeion.<br>• Yn y maes ac yn y labordy, rydym yn edrych ar y defnydd o offer, data a dadansoddeg newydd i wella ein rheolaeth o ymyriant ar gyfer amrywiaeth eang o wasanaethau. |

# Ein blaenoriaethau trawsbynciol

Mae rôl draws-sector Ofcom yn caniatáu i ni fabwysiadu dull unedig o sicrhau bod cyfathrebiadau'n gweithio i bawb. Mae'r blaenoriaethau canlynol yn torri ar draws sectorau. Maen nhw'n ategu ein gwaith ym mhob sector ac yn cael eu siapio yn yr un modd gan newidiadau byd-eang i'n diwydiannau a'r economi ehangach.

## Marchnadoedd Digidol

Mae marchnadoedd digidol fel chwilio, cyfryngau cymdeithasol a chyfrifiadura yn y cwmwl wedi trawsnewid a chyfoethogi'r ffordd mae pobl yn byw ac yn gweithio. Ond heb eu gwirio, mae modd iddyn nhw ddatblygu problemau cystadleuaeth, a gallai pobl a busnesau sy'n dibynnu arnyn nhw fod ar eu colled.

Yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) yw'r prif reoleiddiwr ar gyfer marchnadoedd digidol erbyn hyn drwy'r Uned Marchnadoedd Digidol (DMU).

- Fel rheoleiddiwr cydredol, byddwn yn cefnogi'r DMU gyda gwaith sy'n ymwneud â'n sectorau.
- Byddwn yn monitro risgiau a manteision posibl ar draws marchnadoedd cyfathrebu, gan gynnwys cyfrifiadura ymyl a llwyfannau rhannu fideos (VSPs).

## Ymwybyddiaeth o'r Cyfryngau

Mae ymwybyddiaeth o'r cyfryngau'n golygu "y gallu i ddefnyddio, deall a chreu cyfryngau a chyfathrebiadau ar draws nifer o fformatau a gwasanaethau". Mae problemau yn y maes hwn yn amrywio o fabwysiadwyr cynnar sy'n deall technoleg ac sy'n cael trafferth rheoli dibyniaeth ar y sgrin, a phobl all-lein sy'n ofni rhoi cynnig ar wasanaethau newydd.

Yn ddiweddar, fe wnaethom gyhoeddi ein Strategaeth Ymwybyddiaeth o'r Cyfryngau ar gyfer y tair blynedd nesaf.

- Byddwn yn cynnull ac yn ehangu'r hyn sy'n gweithio drwy ein rhaglen Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau, gan weithio gydag amrywiaeth eang o sefydliadau.
- Byddwn yn nodi ein Datganiad o Argymhellion cyntaf ar gyfer llwyfannau ar-lein.
- Mae gan ymwybyddiaeth o'r cyfryngau rôl o ran darparu cyfryngau rydym yn ymddiried ynddyn nhw ac yn eu gwerthfawrogi – a byddwn yn cydnabod hyn yn yr adolygiad o gyfryngau gwasanaeth cyhoeddus ac yn ei nodi yn Adolygiad Siarter y BBC.

## Trawsnewidiadau Digidol

Mae'r newid o dechnolegau hŷn i rai digidol modern ac effeithlon yn hanfodol ar gyfer twf economaidd, cynhyrchiant, arloesedd a diogelwch. Ond wrth i rwydweithiau symudol a band eang cyflym gael eu cyflwyno, gall y nifer sy'n eu defnyddio fod ar ei hôl hi. Mae perygl y bydd pobl gyda thechnolegau hŷn yn cael eu heithrio, yn cael gwasanaeth gwaeth a chostau uwch. I'r diwydiant, mae cynnal hen rwydweithiau a rhwydweithiau newydd yn gostus ac yn tanseilio gwytnwch.

- Byddwn yn parhau i gydweithio â'r diwydiant a'r Llywodraeth i sicrhau bod pobl – yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed – yn cael eu cefnogi a'u hamddiffyn.
- Byddwn yn ystyried sut gall trawsnewidiadau digidol sicrhau'r canlyniadau gorau i ddefnyddwyr, i'r diwydiant ac i dwf economaidd.

# Camau arfaethedig ein prosiectau a'n rhaglenni allweddol

